**Arolygiad o dan Adran 28**
**Deddf Addysg 2005**

**Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn**

**Ysgol Dyffryn Dulas**
**Corris**
**Machynlleth**
**Powys**
**SY20 9TQ**

**Rhif yr Ysgol: 6612185**

**Dyddiad yr Arolygiad: 22 Hydref 2007**

**gan**

**Len Jones**
**16360**

**Dyddiad Cyhoeddi: 24 Rhagfyr 2007**

**O dan rif contract Estyn: 1101607**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

97. Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Crëir naws ddefosiynol yn y sesiynau cyd-addoli, sy'n cynnwys cyfraniadau gan y disgyblion, ac mae'r negeseuon moesol effeithiol yn hyrwyddo hunan barch a gwerthoedd cadarn. Mae safon uchel y canu yn cyfrannu at naws yr achlysuron hyn. Rhydd y staff batrwm o ymddygiad i'r disgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn deall y gwahaniaeth rhwng da a drwg.

98. Anogir y disgyblion i ystyried anghenion pobl eraill a threfnir i godi llawer o arian at achosion da, yn lleol, cenedlaethol ac yn rhyngwladol, megis yr ambiwlans awyr, *World Vision* a phrosiectau yn Gambia.